

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

**Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan,
Angel Way Dental Care,
Bargoed**

23 Mawrth 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu, pan wneir cais i fodloni anghenion unigol. Am fwy o gymorth, cysylltwch â ni.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Cyd-destun.....	3
3.	Crynodeb	4
4.	Canfyddiadau	5
	Ansawdd Profiad y Claf	5
	Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol.....	7
	Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	15
5.	Y Camau Nesaf.....	16
6.	Methodoleg	17
	Atodiad A.....	19

1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol o'r holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar y canlynol:

- Gwneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad o Angel Way Dental Care yn 58 Heol Caerdydd, Bargoed, Morgannwg Ganol, CF81 8PA ar 23 Mawrth 2016 .

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd Angel Way Dental Care yn bodloni'r safonau gofal a nodir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau perthnasol eraill.

Rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau deintyddol, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r diwylliant yn arwain at ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Rydym ni hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn unol â safonau a chanllawiau perthnasol.

Ceir rhagor o fanylion ynglŷn â'n methodoleg ni yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

2. Cyd-destun

Mae Angel Way Dental Care yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Bargoed. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Mae Angel Way Dental Care yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG

Mae tîm staff y practis yn cynnwys un deintydd; un hylenydd (sydd hefyd yn gweithredu fel rheolwr y practis); dwy nyrs ddeintyddol ac un derbynnydd. Ar adeg ein harolygiad, roedd un nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant hefyd yn gweithio yn y practis.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau deintyddol y GIG a gwasanaethau deintyddol preifat.

3. Crynodeb

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod Angel Way Dental Care yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol o ansawdd uchel ar gyfer cleifion, ac mae'r cleifion yn uchel eu parch tuag ato.

Gwelsom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw'n hapus gyda'r gwasanaeth a ddarparwyd.
- Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n hapus yn eu swyddogaethau ac yn deall eu cyfrifoldebau.
- Roedd y cyfleusterau clinigol wedi eu cyfarparu'n dda, ac roeddent yn amlwg yn lân ac yn daclus.
- Roedd trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio sganiau pelydr-X yn ddiogel.
- Cynhaliwyd cyfarfodydd tîm ac arfarniadau'n rheolaidd a'u defnyddio i wella arferion.

Rydym yn argymhell y gallai'r practis wneud y gwelliannau canlynol:

- Rhoi prosesau dadheintio a rheoli heintiau mwy cadarn ar waith.
- Cwblhau archwiliadau ac adolygu systemau ar reoli heintiau.
- Cofnodi mwy o fanylion am y gwiriadau awtoclaf (cyfarpar ar gyfer sterileiddio offer deintyddol) ar ddechrau pob dydd.
- Ansawdd y gwaith o gadw cofnodion.

4. Canfyddiadau

Ansawdd Profiad y Claf

Gwelsom dystiolaeth bod y practis yn ymroddedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Roedd yr adborth a gafwyd drwy holiaduron cleifion AGIC yn gadarnhaol dros ben. Roedd y practis wedi cyflwyno system yn ddiweddar ar gyfer ceisio adborth gan y cleifion yn rheolaidd, trwy arolygon cleifion, fel modd o asesu ansawdd y gwasanaeth. Roedd man aros dymunol gyda thystiolaeth o ddeunydd hyrwyddo iechyd deintyddol. Fodd bynnag, ni welsom unrhyw ddeunydd mewn print mawr nac yn Gymraeg.

Cyn yr arolygiad, gwnaethom ofyn i'r practis ddsbarthu holiaduron AGIC ymysg cleifion er mwyn cael safbwyntiau am y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Roedd saith o holiaduron cleifion wedi cael eu cwblhau. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys:

"Gwasanaeth da iawn"

"Gwasanaeth a staff dymunol iawn"

"Mae'r holl staff yn wych ac yn gwneud i mi a'm tri o blant deimlo'n gyfforddus ac yn hapus iawn"

Gofal gydag urddas

Nododd pob un o'r cleifion eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth roeddent wedi eu derbyn yn y practis, a'u bod yn cael croeso gan y staff. Gwelsom hefyd yr agwedd gynnes, gyfeillgar a phroffesiynol a oedd gan y staff tuag at y cleifion. Roedd trefniadau ar waith yn y practis i amddiffyn preifatwydd cleifion, gan gynnwys lle i gleifion gynnal sgysiau preifat gyda staff, a disgresiwn wrth ymdrin â negeseuon ffôn gan gleifion. Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn fodlon iawn ar y gofal a'r driniaeth yr oeddent yn eu derbyn.

Gofal amserol

Ceisiodd y practis sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei ddarparu'n brydlon. O'r holiaduron a oedd wedi cael eu cwblhau, dim ond un o'r cleifion oedd wedi profi ychydig o oedi wrth aros i weld y deintydd ar ddiwrnod apwyntiad. Dywedodd dau o bob tri o'r cleifion wrthym hefyd eu bod yn gwybod sut i gael gwasanaethau deintyddol y tu allan i oriau. Roedd y rhif ffôn cyswllt i gleifion ei ffonio pan oedd angen triniaeth ddeintyddol ar frys arnynt wedi'i arddangos yn

glir yn y practis. Roedd hefyd yn y daflen wybodaeth a oedd ar gael yn y dderbynfa ac ar neges peiriant ateb y practis.

Cadw'n iach

Mae Angel Way Dental Care yn ei leoliad presennol ers 1997, pan gafodd eiddo siop ei droi'n bractis deintyddol. Roedd ardal y dderbynfa a'r ystafell aros yn eang ac yn ddeniadol. Roedd taflenni hyrwyddo iechyd deintyddol yn cael eu harddangos o gwmpas y dderbynfa. Roedd hyn yn golygu bod gwybodaeth ar gael i gleifion ynglŷn â sut i ofalu am eu hylendid y geg eu hunain.

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiaduron eu bod wedi derbyn gwybodaeth briodol ynglŷn â'u triniaeth. Dywedodd ymron i bob un o'r cleifion eu bod wedi cael eu holi am yr opsiwn o gyfathrebu yn eu hiaith ddewisol. Nid oedd tystiolaeth bod gwybodaeth ar gael yn Gymraeg. Felly, er mwyn gwella eu dulliau cyfathrebu, dylai'r practis ystyried arddangos gwybodaeth yn Gymraeg.

Gofal unigol

Roedd mynediad i'r practis ar lefel y llawr daear ac roedd y drysau a'r coridorau'n ddigon llydan ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn. Roedd toiled neillryw a oedd yn addas i ddefnyddwyr cadair olwyn.

Dywedodd y staff wrthym fod cleifion yn cael eu hannog i roi adborth llafar am y gwasanaeth pan oeddent yn mynychu'r practis ond nad oedd yr adborth yn cael ei gofnodi. Dywedwyd wrthym fod arolygon cleifion yn cael eu cynnal a bod y data'n cael ei adolygu'n fisol. Dangosodd hyn fod systemau ar waith i alluogi cleifion i roi adborth parhaus i'r practis.

Pan ofynnwyd i'r cleifion sut oedd gwneud cwyn ynglŷn â'u gofal neu eu triniaeth, dywedodd dros hanner y cleifion a gwblhaodd yr holiaduron eu bod yn gwybod sut i wneud cwyn a'u bod wedi gweld yr hysbysiad yn yr ystafell aros. Nid oedd yr hysbysiad yn cofnodi'r cyfnodau amser ar gyfer ymateb i bryderon (cwynion) cleifion y GIG na chleifion preifat, ac nid oedd cyfeiriadau sefydliadau (a allai roi cymorth) y gellir cysylltu â nhw mewn achos o bryder (cwyn) yn cael eu harddangos ar gyfer cleifion y GIG na chleifion preifat ychwaith.

Yr hyn mae angen ei wella:

Rhaid diweddarau polisi cwynion y practis i gynnwys gwybodaeth ynglŷn ag amserlenni ar gyfer ymateb i bryderon (cwynion) a chyfeiriadau sefydliadau y gall cleifion y GIG a chleifion preifat gysylltu â nhw.

Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol

Canfuom fod cleifion yn derbyn gofal deintyddol diogel ac effeithiol ar y cyfan. Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod yr offer pelydr-X yn cael eu defnyddio mewn modd priodol a diogel. Gwnaethom nodi bod angen gwelliannau i agweddau ar y broses ddadheintio ar gyfer offer deintyddol.

Gofal diogel

Canfuom fod y practis yn cael ei reoli gyda'r bwriad o gyrraedd y safonau perthnasol er mwyn sicrhau iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion. Roedd y practis yn darparu amgylchedd glân. Roedd yr ystafelloedd triniaeth yn olau ac yn awyrog.

Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol yn yr ystafelloedd triniaeth a chanfod eu bod yn cynnwys yr offer perthnasol ar gyfer diogelwch cleifion a'r tîm deintyddol. Canfuom fod yr ystafelloedd triniaeth i'w gweld yn lân ac wedi'u cynnal yn dda, er bod ychydig o ddifrod i'r llawr yn yr ystafell driniaeth ar y llawr daear. Dywedwyd wrth y practis y dylai drwsio'r rhan hon o lawr yr ystafell driniaeth er mwyn rhwystro baw rhag cronni.

Roedd yr ystafelloedd triniaeth wedi eu trefnu'n dda i helpu'r nyrsys i weithio'n effeithlon. Roedd dosbarthwyr sebon hylif ac alcohol yn cael eu defnyddio. Cynghorwyd y practis i ystyried defnyddio rhwbiadau sebon ac alcohol untro llawrydd. Gwelsom fod driliau danheddog (offer a ddefnyddir i dorri meinweoedd caled, dannedd neu esgyrn) wedi'u sterileiddio yn cael eu dychwelyd i stonidin plastig ar gyfer driliau danheddog yn yr ystafell driniaeth nad oedd wedi'i sterileiddio. Gall y trefniant hwn gynyddu'r tebygolrwydd o groes-heintio.

Yr hyn mae angen ei wella:

Dylid storio driliau danheddog yn briodol ar ôl sterileiddio er mwyn lleihau croes-heintio.

Wrth brynu offer deintyddol newydd, gan gynnwys driliau danheddog, dylai'r practis ystyried a fyddai dyfeisiau defnydd untro yn bodloni gofynion.

Gwnaethom archwilio'r peiriant a oedd yn darparu aer cywasgedig i'r ystafelloedd triniaeth (cywasgydd). Roedd tystysgrif gwiriad diogelwch ar gael a gwelsom fod contract ar waith ar gyfer ei gynnal a'i gadw.

Gwnaethom nodi bod profion dyfeisiau cludadwy wedi'u cwblhau ar gyfer yr holl offer trydanol ym mis Mawrth 2016, er mwyn helpu i sicrhau bod dyfeisiau bach

yn ddiogel i'w defnyddio. Roedd offer tân ar gael ac roeddent wedi cael eu gwirio ym mis Chwefror 2016. Roedd asesiad risg tân wedi'i gwblhau ym mis Mawrth 2008. Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod y peiriannydd sy'n dod i wirio'r diffoddwyr tân yn gwirio'r adeilad a'r offer brys yn drwyadl, ond nid oedd unrhyw gofnod o hyn. Awgrymwyd y dylai'r practis ofyn i'r peiriannydd gofnodi'r gwiriadau ar y ddalen ymweld. Roedd arwyddion clir ar gyfer yr allanfeydd mewn argyfwng. Roedd tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus a phoster iechyd a diogelwch yn cael eu harddangos yn y practis.

Gwelsom fod yr holl gemegau yn cael eu cadw'n ddiogel y tu ôl i ddrysau dan glo. Roedd ffeil ar gael a oedd yn cynnwys nifer o ddalenni gwybodaeth yn ymwneud â Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd, ynghyd â rhai o'r asesiadau risg perthnasol, a oedd yn dangos y mesurau rheoli presennol i atal anafiadau, ar gyfer y cemegau a gedwir yn yr adeilad. Fodd bynnag, mae'n ofynnol gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch bod dalen ddata ac asesiad risg clir ar gael ar gyfer pob cemegyn neu sylwedd peryglus a gedwir yn yr adeilad. Yn ôl canllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch dylid cael asesiadau risg iechyd a diogelwch ar waith hefyd ac ni welsom unrhyw dystiolaeth bod rhai wedi cael eu cwblhau.

Yr hyn mae angen ei wella:

Rhaid cwblhau dalenni data ac asesiadau risg ar gyfer yr holl gemegau a gedwir yn yr adeilad. Dylid rhoi asesiadau risg iechyd a diogelwch ar waith hefyd.

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffeg (pelydr-X) yn ddiogel a gwelsom dystiolaeth o hyfforddiant cyfredol ar ymbelydredd ïoneiddio ar gyfer y deintydd.

Roedd y trefniadau ar gyfer diogelu cleifion a staff wrth i'r offer pelydr-X gael eu defnyddio yn dderbyniol. Gwelsom dystiolaeth o wiriadau diogelwch, gwaith cynnal a chadw ac o gynnal profion ar yr offer. Gwelwyd hefyd reolau lleol ar gyfer defnyddio cyfarpar pelydr-X ar y wal y tu allan i'r ystafell driniaeth. Roedd y rhan fwyaf o wybodaeth am yr offer radiograffig yn cael ei chadw ar ffurf electronig. Cynghorwyd y practis i gadw copi caled o'r holl waith papur yn y ffeil ymbelydredd er cyflawnrwydd.

Cadarnhaodd y staff hefyd fod ansawdd y pelydrau-X a gymerir yn cael ei ystyried a'i gofnodi bob dydd a gwelsom hynny. Nid oedd archwiliad radiograffig manwl wedi cael ei gynnal felly gwnaethom gynghori y dylid ystyried hyn yn gyfnodol, fel tystiolaeth bellach o'u proses sicrhau ansawdd.

Roedd gweithdrefnau ar waith yn y practis i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion. Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod y tîm wedi cael hyfforddiant

ar sut i berfformio dadebru cardio-pwlmonaidd (CPR). Y deintydd oedd y swyddog cymorth cyntaf penodedig. Roedd y practis wedi bod yn defnyddio llyfr nodiadau i gofnodi damweiniau yn hytrach na llyfr damweiniau mewn fformat cymeradwy.

Yr hyn mae angen ei wella:

Yn unol â chanllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, dylai'r practis ddefnyddio llyfr damweiniau sy'n cydymffurfio o ran diogelu data ac sy'n cynnwys cyfeiriad, rhif ffôn a phrotocol yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

Roedd y cyfarpar dadebru a'r cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys yn cael eu cadw yn yr ystafell driniaeth ar y llawr daear ac roeddent ar gael ar unwaith pe bai argyfwng meddygol (claf yn llewyg) yn y practis. Gwelsom dystiolaeth bod system effeithiol ar waith i wirio'r cyfarpar a'r cyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng yn wythnosol. Fodd bynnag, gwelsom fod dyddiad dod i ben y nodwyddau wedi mynd heibio ac er nad oeddent wedi cael eu defnyddio roeddent wedi cael eu hagor yn ystod hyfforddiant cymorth cyntaf. Argymhellwyd y dylai'r practis wirio dyddiad dod i ben nodwyddau'n rheolaidd a sicrhau eu bod yn cael eu storio'n ddiogel.

Yr hyn mae angen ei wella:

Rhaid sicrhau bod dyddiad dod i ben nodwyddau'n cael ei gynnwys ar y rhestr wirio a'u bod yn cael eu cadw mewn cyflwr diogel.

Roedd siartiau llif ar gyfer achosion meddygol brys ond nid oedd polisi cyffredinol ar waith ar gyfer dadebru. Dylid rhoi polisi sy'n benodol i'r practis ar waith, a dylai nodi swyddogaethau'r staff yn ystod argyfwng.

Yr hyn mae angen ei wella:

Dylid rhoi polisi dadebru sy'n benodol i'r practis ar waith, a dylai nodi swyddogaethau'r staff. Yn hyn o beth, dylai'r practis gyfeirio at ganllawiau Cyngor Dadebru'r DU ar gyfer gofal deintyddol sylfaenol.

Roedd gan y practis fan neilltuol ar gyfer glanhau a sterileiddio (dadheintio) offer deintyddol, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd

Cymru 01-05 (WHTM) 01-05.¹ Roedd system effeithiol ar waith i symud offer deintyddol a oedd wedi cael eu defnyddio o'r ystafell driniaeth i'r ystafell ddadheintio, a hynny mewn cynwysyddion wedi'u selio. Roedd y practis yn defnyddio baddon uwchsonig ar gyfer glanhau ac roedd dau awtoclaf² ar waith. Roedd y fan i'w gweld yn lân, ac yn rhydd rhag annibendod. Fodd bynnag, nid oeddem yn fodlon bod gweithdrefnau priodol a sefydledig ar waith i leihau'r risg o groes-heintio i amddiffyn y cleifion a'r staff.

Nid oedd prawf protein wythnosol yn cael ei gynnal ar y baddon uwchsonig, er i'r practis ddangos i ni ei fod wedi prynu'r offer yn ddiweddar, ac nid oedd profion ffoil chwarterol yn cael eu cwblhau. Serch hynny, roedd tystiolaeth eu bod wedi cael eu cwblhau yn y gorffennol. Gwelsom fod sinc pwrpasol ar gyfer golchi dwylo yn yr ystafell ddadheintio. Nid oedd y nyrs ddeintyddol yn cadw at ganllawiau rheoli heintiau, sy'n argymhell y dylid gwisgo ffedog ddiogelwch wrth ddadheintio. Yn dilyn y broses glanhau a sterileiddio (dadheintio), roedd rhai offerynnau deintyddol yn cael eu gadael heb eu gorchuddio i sychu cyn cael eu cymryd mewn blwch gwag i'r ystafell driniaeth. Cynghorwyd y practis i orchuddio'r offerynnau tra'r oeddent yn sychu er mwyn rhwystro croes-heintio.

Gwelsom fod yr offer glanhau a sterileiddio wedi cael eu harchwilio'n rheolaidd. Roedd y practis wedi cofnodi gwiriadau dyddiol ac wythnosol ar yr awtoclafau er mwyn sicrhau bod yr offer yn aros mewn cyflwr da a bod y broses ddadheintio'n effeithiol. Er hynny, er bod prawf yn cael ei gwblhau yn ystod y gwiriadau dechrau'r dydd a oedd yn dangos bod yr awtoclafau wedi cyrraedd tymheredd addas am gyfnod priodol, nid oedd dim cofnodion (gan gynnwys cofnodion pwysedd) fel yr argymhellir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 i ddilysu hyn. Yn ystod yr arolygiad, ffoniodd y practis y contractwr cynnal a chadw a threfnu apwyntiad i'r peiriannydd ymweld â'r practis a gosod yr argraffyddion data. Yn y cyfamser, cynghorwyd y practis i gofnodi amser, tymheredd a phwysedd â llaw.

Yr hyn mae angen ei wella:

Er mwyn cydymffurfio â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05:

¹ Mae dogfen [Memorandwm Technegol Iechyd Cymru WHTM 01-05 \(Diwygiad 1\)](#) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

² Siambwr bwysedd yw awtoclaf a ddefnyddir i sterileiddio offer a chyflenwadau drwy ddefnyddio stêm dirlawn o bwysedd uchel.

- Rhaid cynnal prawf protein wythnosol ar yr offer uwchsonig a rhaid cynnal prawf gweithgarwch uwchsonig bob tri mis.
- Dylai'r staff wisgo'r cyfarpar diogelu personol priodol bob amser yn yr ystafell ddadheintio a'r ystafell driniaeth.
- Dylai'r practis ystyried gosod sinc pwrpasol ar gyfer golchi dwylo yn yr ystafell ddadheintio.
- Rhaid i wiriadau dechrau'r dydd gofnodi'r amser, tymheredd a phwysedd a gyflawnir a dylid dilysu pob cylchred.

Roedd offer deintyddol a oedd yn cael eu defnyddio'n aml yn cael eu storio mewn bagiau heb eu selio ac yna roedd y bagiau hyn yn cael eu selio ar ddiwedd y dydd. Rhaid i'r offer hynny mewn bagiau nad ydynt wedi cael eu selio ac nad ydynt wedi cael eu defnyddio erbyn diwedd y sesiwn ddeintyddol gael eu glanhau a'u sterileiddio eto cyn cael eu defnyddio.

Yr hyn mae angen ei wella:

Rhaid i unrhyw offer nad ydynt wedi cael eu defnyddio sydd mewn bagiau heb eu selio yn yr ystafelloedd triniaeth gael eu dychwelyd i'r ystafell ddadheintio ar ddiwedd y sesiwn er mwyn cael eu hailbrosesu (yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05).

Roedd offer deintyddol eraill yn cael eu pecynnu, eu labelu'n glir a'u dyddio cyn cael eu storio mewn dreiriau yn yr ystafell driniaeth yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Roedd yr holl eitemau a oedd wedi eu dyddio'n cael eu tynnu ar ddiwedd y mis a'u hail brosesu.

Roedd y practis yn darparu hyfforddiant dadheintio mewnol i staff newydd ac roedd y staff wedi llofnodi i gadarnhau eu bod wedi darllen a deall polisi rheoli heintiau'r practis. Roedd yr holl staff hefyd wedi cwblhau cwrs hyfforddi cydnabyddedig ar gyfer rheoli heintiau. Dangosodd rheolwr y practis dystiolaeth o'i thystysgrif rheoli heintiau a dywedodd wrthym fod yr holl staff wedi mynychu'r un hyfforddiant. Fodd bynnag, nid oedd tystysgrifau ar gael i gadarnhau hyn.

Yr hyn mae angen ei wella

Dylid ychwanegu cofnodion hyfforddiant dadheintio at ffeiliau'r staff. Rhaid anfon copïau o dystysgrifau hyfforddiant presennol y staff at AGIC.

Dywedodd y staff wrthym nad oeddent erioed wedi cwblhau archwiliad rheoli heintiau manwl. Cynghorwyd y practis i ddefnyddio dull archwilio Deoniaeth Cymru sy'n cydymffurfio â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru

01-05 ar gyfer archwiliadau yn y dyfodol. Cynghorwyd y practis i ddefnyddio'r dull archwilio i ganfod meysydd y mae angen eu gwella yn yr ystafell ddadheintio a'r ystafelloedd triniaeth, gan sicrhau bod cynllun gweithredu'n cael ei gwblhau gydag amserlenni realistig.

Yr hyn mae angen ei wella:

Dylid cwblhau archwiliad rheoli heintiau manwl bob blwyddyn. Cynghorir y practis i gyfeirio at ganllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 ynglŷn ag adolygu a monitro'r broses ddadheintio.

Roeddem yn gallu gweld bod gan y practis system ar waith ar gyfer rheoli gwastraff yn briodol ac yn ddiogel. Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus. Gwelsom hefyd fod gwastraff wedi cael ei ddioli a'i roi mewn bagiau/cynwysyddion o wahanol liwiau, yn unol â'r dull cywir o'i waredu. Roedd y rhain wedi eu storio mewn biniau cloadwy mewn man ar wahân yn yr adeilad, cyn iddynt gael eu casglu. Ar ddiwrnod yr arolygiad nid oedd y biniau dan glo. Cynghorwyd y practis i gadw'r biniau dan glo bob amser.

Gwelsom fod gan y practis bolisi diogelu ar waith i amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Roedd y deintydd wedi cwblhau hyfforddiant mewn amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed ac roedd rhai o'r aelodau eraill o staff wedi cwblhau hyfforddiant amddiffyn plant. Gwelsom y tystysgrifau ar gyfer y deintydd a'r hylenydd ond nid oedd tystysgrifau hyfforddiant rhai o'r staff eraill ar gael i'w harchwilio. Nid oedd staff newydd wedi cwblhau hyfforddiant diogelu eto ond dywedwyd wrthym y byddent yn mynychu cwrs ym mis Mai 2016. Roedd aelodau eraill o staff hefyd i fod i fynychu cwrs am ddiogelu oedolion sy'n agored i niwed ym mis Mai.

Yr hyn mae angen ei wella:

Gellid gwella'r gwaith o fonitro hyfforddiant staff trwy ddefnyddio system gofnodi ganolog ar gyfer hyfforddiant a chadw copïau o dystysgrifau hyfforddiant. Dylai hon gynnwys copïau o'r dystysgrifau ar gyfer hyfforddiant diogelu a ddarperir i staff wrth iddynt ei gwblhau.

Gofal effeithiol

Yn ystod ein trafodaethau â staff roedd tystiolaeth bod y practis yn ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Fodd bynnag, nid oeddem yn gallu gweld bod y practis wedi cwblhau unrhyw archwiliadau. Yn ystod ein trafodaethau â'r deintydd, cytunwyd y byddai'n cynnal archwiliadau ac y byddai'n dechrau gydag archwiliad periodontol.

Yr hyn mae angen ei wella:

At ddibenion sicrhau ansawdd ac i ddangos gwelliant parhaus, dylid cynnal archwiliadau rheolaidd.

Canfu ein hadolygiad o gofnodion cleifion fod angen gwelliannau er mwyn codi eu safon fel yr argymhellir gan ganllawiau clinigol proffesiynol.

Adolygwyd sampl o gofnodion cleifion. Ar y cyfan, canfuom nad oedd cofnodion gofal y cleifion yn cynnwys gwybodaeth ddigonol ynghylch trafodaethau a gynhaliwyd ynglŷn â dewisiadau triniaethau, na thystiolaeth o gynllunio triniaeth yn briodol. Gwelsom hefyd nad oedd cydlofnodion i ddangos bod y deintydd wedi gwirio hanes meddygol cleifion na'u bod wedi cael eu diweddarau cyn triniaeth, anesthetig neu dynnu dannedd.

Er bod y gwaith o ysgrifennu nodiadau clinigol yn dda ar y cyfan mewn rhai meysydd, roedd rhai cofnodion yn dangos nad oedd unrhyw dystiolaeth o drafodaeth ynglŷn â sgrinio am ganser y geg na chydsyniad parhaus. Nid oedd yr holiadur i gleifion yn cynnwys cwestiynau ynglŷn â defnydd o alcohol. Nid oedd yr archwiliad periodontol sylfaenol (BPE)³ yn cael ei gofnodi ac o ganlyniad nid oedd cyflwr periodontol cleifion yn cael ei asesu. Dylid cofnodi cyfnod ail alw (y cyfnod pan fydd claf yn cael ei ail alw am archwiliad) yn unol â chanllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal.

Yr hyn mae angen ei wella:

Rhaid gwella nodiadau clinigol, i gynnwys tystiolaeth o:

- ***Sgrinio am ganser y geg a chydsyniad parhaus.***
- ***Gwybodaeth ynglŷn ag opsiynau triniaeth.***
- ***Cofnodion o gynllunio triniaeth.***
- ***Cydlofnodion ar hanesion meddygol.***
- ***Diweddariadau o hanes meddygol cleifion.***
- ***Cofnodi Archwiliadau Periodontol Sylfaenol (BPE) yn gyson.***

³ Offeryn sgrinio yw BPE sy'n cael ei ddefnyddio gan ddeintyddion i ganfod clefyd y deintgig.

- ***Cyfnod ail alw yn unol â chanllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn lechyd a Gofal.***
- ***Dylid cynnwys cwestiwn ynglŷn â defnydd alcohol yn yr holiadur i gleifion.***

Roedd tystiolaeth bod cleifion yn cael cynnig sganiau pelydr-X ar adegau priodol. Roedd ansawdd y sganiau pelydr-X wedi cael ei fonitro ac roedd pob sgan pelydr-X yn cael ei gadw ar ffurf electronig.

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith yn y practis i gadw copi wrth gefn o gofnodion cleifion er mwyn sicrhau dilyniant o ran gofal. Cadwyd y cofnodion papur mewn cypyrddau ffeilio dan glo.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Er bod angen gwella rhai meysydd o arfer clinigol (fel y nodwyd dan y thema flaenorol) gwelsom dystiolaeth o systemau effeithiol i gefnogi'r gwaith cyffredinol o reoli ac arwain y practis. Roedd amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau perthnasol ar waith. Roedd y tîm staff i'w gweld yn hapus yn eu swyddogaethau ac yn gymwys i gyflawni eu cyfrifoldebau.

Roedd y practis mewn adeilad a oedd yn arfer â bod yn siop ers 1997 mewn ardal fasnach / breswyl gymysg a phrysur ym Margoed, ger canol y dref. Rheolwr y practis, a oedd hefyd yn gweithio fel hylenydd yn y practis, oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd.

Gwelsom ffolderi sefydlu staff wedi'u cwblhau. Roedd y rhain wedi cael eu trefnu'n dda. Roedd pob aelod o staff yn gallu gweld y polisiau a'r gweithdrefnau, a gwelsom dystiolaeth fod y rhain wedi cael eu darllen a'u llofnodi gan y staff. Roedd arfarniadau blynyddol wedi cael eu cynnal ac roedd amcanion wedi cael eu nodi. Gwelsom gofnodion hefyd o'r cyfarfodydd tîm a oedd yn cael eu cynnal bob chwe mis. Roedd y cofnodion yn dangos yr hyn oedd wedi cael ei ddysgu yn sgil y cyfarfodydd.

Gwnaethom gadarnhau bod yr holl staff perthnasol wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, ac roedd arwyddion yn dangos enw a chymhwyster y deintydd. Roedd yswiriant indemniad priodol ar waith. Gwelsom fod tystysgrif AGIC y deintydd wedi'i harddangos, fel sy'n ofynnol dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008. Gwnaethom gynghori'r practis i ddiweddar'u dystysgrif i gynnwys cyfeiriad AGIC ym Merthyr Tudful a chytunodd y practis i gyflawni hyn.

Gwelsom gofnodion a oedd yn ymwneud â statws imiwnedd hepatitis B ar gyfer pob aelod o staff clinigol sy'n gweithio yn y practis. Roedd un aelod o staff yn aros am ganlyniadau prawf gwaed imiwnedd dilynol. Gwelsom gadarnhad o'r apwyntiad a gwnaethom gynghori'r practis i gadw copi o'r canlyniadau yn y ffeil staff.

Gwnaethom edrych ar y polisiau a'r gweithdrefnau sydd ar waith. Gwelsom eu bod yn eithaf trwyadl a gwelsom dystiolaeth eu bod yn adlewyrchu arfer gwirioneddol.

5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Angel Way Dental Care yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynghylch y materion a drafodir ynddo.


Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r practis yn parhau heb eu gweithredu a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi diweddariadau i AGIC i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal Newydd (gweler Ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio ar y cyd. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal



Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008⁴ a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.⁵ Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

⁴ <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh>

⁵ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh>

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwiliad o bolisiau a gweithdrefnau'r practis
- Archwiliad o'r offer a'r safle
- Gwybodaeth a geir yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai ddeillio o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredwyd safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

Practis: Angel Way Dental Care, Bargoed

Dyddiad yr arolygiad: 23 Mawrth 2016

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Graddfa amser
Ansawdd Profiad y Claf					
6	Rhaid diweddarau polisi cwynion y practis i gynnwys gwybodaeth ynglŷn ag amserlenni ar gyfer ymateb i bryderon (cwynion) a chyfeiriadau sefydliadau y gall cleifion y GIG a chleifion preifat gysylltu â nhw.	Rheoliadau Deintyddiaet h Breifat (Cymru) 2008 Rheoliad 15 (4a) Safonau Iechyd a Gofal Safon 6.3	Mae'r daflen cwynion i gleifion wedi cael ei diweddarau i adlewyrchu polisi cwynion presennol y practis ac mae'n cynnwys amserlenni a manylion sefydliadau perthnasol.	CP	Cwblhawyd 28.3.2016

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Graddfa amser
Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol					
7	Dylid storio driliau danheddog yn briodol ar ôl sterileiddio er mwyn lleihau croes-heintio. [Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, paragraffau 4.27 i 4.28]	Safonau Iechyd a Gofal Safon 2.4	Mae stondinau metal priodol ar gyfer driliau danheddog y gellir eu rhoi yn yr awtoclaf wedi cael eu prynu ac yn cael eu defnyddio.	CP	Cwblhawyd 28/4/2016.
8	Rhaid cwblhau dalenni data ac asesiadau risg ar gyfer yr holl gemegau a gedwir yn yr adeilad. Dylid rhoi asesiadau risg iechyd a diogelwch ar waith hefyd.	Safonau Iechyd a Gofal Safon 2.1	Cynhaliwyd asesiad risg llawn o'r holl gemegau a gedwir yn yr adeilad ac mae dalenni data ar waith bellach.	CP	Cwblhawyd 25/4/2016
9	Yn unol â chanllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, dylai'r practis ddefnyddio llyfr damweiniau sy'n cydymffurfio o ran diogelu data ac sy'n cynnwys cyfeiriad, rhif ffôn a phrotocol yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.	Safonau Iechyd a Gofal Safon 2.1	Mae'r ddogfen briodol bellach ar waith.	CP	Cwblhawyd 25/4/2016
9	Rhaid sicrhau bod dyddiad dod i ben nodwyddau'n cael ei gynnwys ar y rhestr wirio a'u bod yn cael eu cadw mewn cyflwr diogel.	Safonau Iechyd a Gofal Safon 2.9	Mae dyddiad dod i ben nodwyddau bellach yn cael ei gynnwys yn y ffolder dadebru cardio-pwlmonaidd.	CP	Cwblhawyd 24/3/2016
9	Dylid rhoi polisi dadebru penodol i'r	Safonau	Mae polisi pwrpasol wedi cael ei	CP	Cwblhawyd

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Graddfa amser
	<p>practis ar waith, a dylai nodi swyddogaethau'r staff yn ystod argyfwng. Yn hyn o beth, dylai'r practis gyfeirio at ganllawiau Cyngor Dadebru'r DU ar gyfer gofal deintyddol sylfaenol.</p> <p>[Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safonau 6.2.6, 6.6.6]</p>	<p>Iechyd a Gofal</p> <p>Safon 5.1</p>	<p>ddatblygu ar gyfer y practis sy'n dilyn y canllawiau a argymhellwyd</p>		13/6/2016.
10	<p>Er mwyn cydymffurfio â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05:</p> <ul style="list-style-type: none"> Rhaid cynnal prawf protein wythnosol ar yr offer uwchsonig a rhaid cynnal prawf gweithgarwch uwchsonig bob tri mis (prawf ffoil). Dylai'r staff wisgo'r cyfarpar diogelu personol priodol bob amser yn yr ystafell ddadheintio a'r ystafell driniaeth. Dylai'r practis ystyried gosod sinc pwrpasol ar gyfer golchi 	<p>Safonau Iechyd a Gofal</p> <p>Safon 2.4</p>	<p>Mae profion protein wythnosol ar waith bellach a bydd prawf gweithgarwch chwarterol yn cael ei roi ar waith.</p> <p>Mae'r holl staff yn gwisgo ffedogau untro plastig a ddarperir ar eu cyfer.</p> <p>Bydd hyn yn cael sylw pan fydd yr ardal hon yn cael ei hailwampio yng nghylchred datblygu nesaf y practis.</p>	<p>CP</p> <p>CP</p> <p>DCP</p> <p>CP</p>	<p>Cwblhawyd 25/3/2016.</p> <p>Cwblhawyd 24/3/2016.</p> <p>13/6/2016.</p> <p>Cwblhawyd</p>

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Graddfa amser
	<p>dwylo yn yr ystafell ddadheintio.</p> <ul style="list-style-type: none"> Rhaid i wiriadau dechrau'r dydd gofnodi'r amser, tymheredd a phwysedd a gyflawnir a dylid dilysu pob cylchred. <p>Nodyn Technegol Iechyd Cymru (01-05) paragraffau 4.16-4.23, Tabl A3, nodyn tudalen 34, paragraffau 15.6-15.12</p>		<p>Mae dyfeisiadau cofnodi data [a enwir] bellach wedi cael eu gosod ar bob awtoclaf.</p>		7/4/2016.
10	<p>Rhaid i unrhyw offer nad ydynt wedi cael eu defnyddio sydd mewn bagiau heb eu selio yn yr ystafelloedd triniaeth gael eu dychwelyd i'r ystafell ddadheintio ar ddiwedd y sesiwn i gael eu hail brosesu (yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05).</p> <p>[Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (01-05) paragraff 2.4j]</p>	<p>Safonau Iechyd a Gofal Safon 2.4</p>	<p>Mae'r holl offer a ddefnyddir yn ddyddiol yn cael eu hail brosesu ar ddiwedd y dydd ac yn cael eu storio dros nos mewn bagiau wedi'u selio a'u dyddio.</p>	CP	Cwblhawyd 7/4/2016.
11	<p>Dylid ychwanegu cofnodion hyfforddiant dadheintio at ffeiliau'r staff. Rhaid anfon copïau o dystysgrifau hyfforddiant presennol y staff at AGIC.</p>	<p>Safonau Iechyd a Gofal Safon 7.1</p>	<p>Mae copïau o gofnodion holl hyfforddiant craidd y staff yn cael eu cadw yn y practis.</p>	CP	Cwblhawyd 7/4/2016.

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Graddfa amser
	Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (01-05) paragraffau 1.26 a 2.4(o)				
11	Dylid cwblhau archwiliad rheoli heintiau manwl bob blwyddyn. Cynghorir y practis i gyfeirio at ganllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 ynglŷn ag adolygu a monitro'r broses ddadheintio. [Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, paragraff 2,23]	Safonau Iechyd a Gofal Safon 3.1	Mae dull archwilio manwl ar gyfer rheoli heintiau'n flynyddol wedi ei gaffael a bydd yn dechrau ar 30/6/2016 ac yna'n flynyddol yn ôl y gofyn.	CP	I'w roi ar waith 30/6/2016.
12	Gellid gwella'r gwaith o fonitro hyfforddiant staff trwy ddefnyddio system gofnodi ganolog ar gyfer hyfforddiant a chadw copïau o dystysgrifau hyfforddiant. . Dylai hyn gynnwys copïau o'r dystysgrifau ar gyfer hyfforddiant diogelu a ddarperir i staff wrth iddynt ei gwblhau.	Safonau Iechyd a Gofal Safon 7.1	Gweler uchod.	CP	Cwblhawyd 7/4/2016.
12	At ddibenion sicrhau ansawdd ac i ddangos gwelliant parhaus, dylid cynnal archwiliadau rheolaidd.	Safonau Iechyd a Gofal Safon 3.3	Offer archwilio wedi eu caffael a bydd archwiliadau amlach a mwy gwiriadwy'n cael eu cynnal.	DCP	I'w roi ar waith 30/6/2016.

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Graddfa amser
13	<p>Rhaid gwella nodiadau clinigol, i gynnwys tystiolaeth o:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sgrinio am ganser y geg a chydsyniad parhaus. • Gwybodaeth ynglŷn ag opsiynau triniaeth. • Cofnodion o gynllunio triniaeth. • Cydlofnodion ar hanesion meddygol. • Diweddariadau o hanes meddygol cleifion. • Cofnodi Archwiliadau Periodontal Sylfaenol (BPE). • Cofnodi cyfnod ail alw yn unol â chanllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn lechyd a Gofal. • Cynnwys cwestiwn ynglŷn â defnydd alcohol yn yr holiadur i gleifion. <p>Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 4.1</p>	<p>Safonau lechyd a Gofal Safon 3.5</p>	<p>Gweithredir yn sgil sylwadau a chaiff cofnodion perthnasol eu diweddarau.</p>	<p>DCP</p>	<p>Rhoddwyd ar waith 24/3/2016.</p>

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Graddfa amser
Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth					
	Dim angen cynllun gwella.				

Cynrychiolydd y Practis:

Enw (llythrennau bras): ..David Phillips.....

Teitl: ..Deintydd.....

Dyddiad: ..13/6/2016.....